# AIDAC Adroddiad Blynyddol

# 2024-2025



AIDAC Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

IEPAW Interim Environmental Protection Assessor for Wales

# Cynnwys

1 Rhagair 4

1 Cyflwyniad 6

2 Ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac adrodd iddo 8

3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid 10

4 Ymgysylltu ar draws y DU ynghylch llywodraethiant amgylcheddol 14

5 Proses 18

6 Cyflwyniadau 20

*6.1 Trosolwg o'r holl gyflwyniadau a gafwyd 20*

*6.2 Cyflwyniadau a gafwyd yn 2024 – 2025 23*

*7.1 Ansawdd dŵr 24*

*7.2 Tir halogedig 25*

*7.3 Safleoedd gwarchodedig 26*

*7.4 Coed a gwrychoedd 26*

8 Monitro effaith 27

*8.1 Datblygu dull o fonitro effaith allanol 28*

*8.1.1 Monitro effaith allanol: argymhellion yr adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 30*

*8.2 Monitro effaith fewnol: adolygiadau o gyflwyniadau 33*

*8.3 Gweithgarwch datblygu 34*

9 Cynorthwyo'r gwaith pontio i gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol 35

10 Casgliad 37

## Rhagair

Mae'n bleser cyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol yr AIDAC, a'r adroddiad olaf i fi yn fy rôl. Mae'r bedwaredd flwyddyn eto wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r AIDAC wrth i gyflwyniadau newydd ddod i law ac wrth i waith barhau mewn sawl maes a oedd yn cynnwys dŵr, tir halogedig, coed, gwrychoedd a safleoedd gwarchodedig.

Roeddwn yn falch dros ben ym mis Mai 2024 o weld Anna Heslop a Lynda Warren yn ymuno â fi fel Dirprwy Aseswyr Interim. Mae eu cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy o safbwynt hybu gwaith yr AIDAC ac o safbwynt ein galluogi i wneud cymaint ag sy'n bosibl â'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â phryderon a fynegir wrthym am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru.


Rydym yn ddiolchgar iawn am yr ymgysylltu parhaus a chefnogol â'n rhanddeiliaid, ac rydym yn falch o fod wedi gallu cynnal sawl digwyddiad wyneb yn wyneb i randdeiliaid yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r digwyddiadau hynny wedi ein galluogi i drafod yr agweddau ar y gyfraith yr ydym yn eu hystyried yn fwy manwl, a chasglu safbwyntiau ar faterion sydd wedi'u dwyn i'n sylw yn yr AIDAC.

Rydym yn dechrau'n awr ar gyfnod pontio i gorff a fydd yn gorff craffu parhaol ar gyfer Cymru, ac mae'r AIDAC wedi ymrwymo i gydweithio â thîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol ac eraill i sicrhau bod yr AIDAC, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud am ddyluniad a llywodraethiant y corff newydd hwnnw, yn datblygu ac yn esblygu hefyd er mwyn alinio ac er mwyn paratoi ar gyfer proses bontio sydd mor hwylus ag sy'n bosibl.

Erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, bydd fy nhymor i fel yr AIDAC wedi dod i ben a bydd y swydd wedi'i llenwi yn fedrus iawn gan Lynda Warren. Bydd Anna Heslop yn parhau fel Dirprwy

a bydd John Henderson yn cymryd y rôl arall i Ddirprwy. Rydym yn ffodus dros ben o gael tîm mor ardderchog o arbenigwyr ar gyfraith amgylcheddol yn arwain yr AIDAC yng Nghymru yn y dyfodol, ac edrychaf ymlaen at weld sut y bydd gwaith yr AIDAC yn datblygu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf cyn bod y corff craffu newydd yn cymryd yr awenau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am eich cymorth, eich arweiniad a'ch brwdfrydedd dros y pedair blynedd diwethaf. Mae cyflawni'r rôl hon wedi bod yn fraint, a byddaf yn parhau i gyfrannu ym mha ffordd bynnag sy'n bosibl at sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn gweithredu'n effeithiol yng Nghymru.



28 Chwefror 2025

# 1 Cyflwyniad

Ers mis Mawrth 2021, mae Nerys Llewelyn Jones wedi bod yn cyflawni rôl yr AIDAC. Ym mis Mai 2024, ymunodd dau Ddirprwy â Dr Llewelyn Jones, sef Anna Heslop a Lynda Warren. Mae'r AIDAC yn ystyried pryderon a fynegir gan aelodau'r cyhoedd am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae hon yn broses interim a fydd ar waith nes y bydd corff craffu parhaol wedi'i sefydlu yng Nghymru i oruchwylio'r modd y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol. Cafodd Dr Llewelyn Jones ei chyflogi dan gontract am gyfnod o hyd at ddwy flynedd i ddechrau, ond cafodd y cyfnod hwnnw ei ymestyn i 29 Chwefror 2024 ac yna i 28 Chwefror 2025. Cafodd y broses o recriwtio dau Ddirprwy ei chychwyn yn 2023, a chafodd penodiadau eu gwneud ym mis Mai 2024 am gyfnod o dair blynedd.

Mae'r AIDAC yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar ffurf ysgrifenyddiaeth iddo. Rydym yn canolbwyntio ar y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, yn hytrach nag ar achosion o dorri'r gyfraith honno. Dyma ein nodau:

- **goruchwylio'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac**
- **ystyried materion systemig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru.**

Nid yw'r rôl yn cynnwys ystyried:

- **achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;**

- **meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; neu**
- **faterion a godir ac y mae system neu broses gwyno arall yn ymdrin â nhw.**

Ein nod yw adnabod ble y gellir cymryd camau gweithredu i wella'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol. Mae manylion ynghylch sut mae mynegi pryder am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, yn ogystal â'n cylch gorchwyl, ar gael yma: Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru | LLYW. CYMRU.

Mae'r AIDAC wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y cyflwyniadau a gafwyd, ei waith o ran ystyried sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yng nghyswllt y pryderon a fynegwyd. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2024 a 28 Chwefror 2025.

## 2 Ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac adrodd iddo

Cafodd y diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch gweithredu'r mesurau interim ei roi ar 18 Gorffennaf 2024. Cafodd yr Asesydd Interim, sef Nerys Llewelyn Jones, gwmni'r ddau Ddirprwy a oedd newydd gael eu penodi, sef Anna Heslop a Lynda Warren. Cafodd y Pwyllgor amlinelliad o weithgarwch y flwyddyn flaenorol, a gofynnodd gwestiynau i'r Asesydd Interim a'r Dirprwyon.

Holodd aelodau'r Pwyllgor yr Asesydd Interim a'r Dirprwyon ynglŷn â chynnydd o ran monitro effaith; sut yr oedd adnoddau ychwanegol wedi cael eu defnyddio; cynnydd o ran adroddiadau; cydweithio â chyrff craffu amgylcheddol eraill yn y DU; gweithgarwch o ran cyflwyniadau; a gwaith sy'n ymwneud â phontio i'r corff craffu amgylcheddol parhaol yng Nghymru pan fydd deddfwriaeth ar gyfer ei sefydlu wedi'i chyflwyno.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd ym mis Hydref 2024[1]. Ynddo, nododd y Pwyllgor ei farn am weithrediad yr AIDAC yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cafodd sawl argymhelliad eu gwneud ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r AIDAC. Croesawodd yr AIDAC yr argymhellion canlynol:

> *Argymhelliad 3. Dylai swyddfa Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru gynnwys yn ei adroddiad blynyddol nesaf fanylion am y gwaith y mae wedi'i wneud i fonitro ei berfformiad ac effaith ei waith.*

1 Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-2024

*Argymhelliad 4. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru adolygu'r effaith bosibl o gynyddu cyflwyniadau'r cyhoedd ar gapasiti'r Asesydd, gyda'r bwriad o wneud yr achos dros gael adnoddau ychwanegol i reoli galw yn y dyfodol, os bydd angen.*

*Argymhelliad 7. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad 'gwersi a ddysgwyd', yn seiliedig ar ei phrofiad o'r trefniadau interim, er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo i gorff llywodraethu parhaol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi ymateb i adroddiad yr Asesydd.*

*Argymhelliad 8. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru sicrhau bod yr adroddiad blynyddol nesaf yn nodi manylion am sut y mae'n bwydo i mewn i'r gwaith o sefydlu'r corff newydd.*

Darparodd yr AIDAC ymateb i'r adroddiad ar 11 Tachwedd 2024. Roedd yn cadarnhau'r camau gweithredu a fyddai'n ymateb i'r argymhellion:

*Argymhelliad 3. Mae adran wedi'i hychwanegu at yr Adroddiad Blynyddol hwn, sy'n nodi ein gwaith ar fonitro perfformiad ac effaith.*

*Argymhelliad 4. Rydym yn parhau i adolygu effaith cyflwyniadau ar ein capasiti ac yn trafod yn rheolaidd â staff Llywodraeth Cymru faterion sy'n ymwneud ag adnoddau.*

*Argymhelliad 7. Disgwylir y bydd yr Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd yn cael ei gyhoeddi yn 2025.*

*Argymhelliad 8. Ers mis Mehefin, rydym wedi bod yn cyfarfod bob mis ag aelodau o dîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol yn Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd tuag at sefydlu'r corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol. Mae adran wedi'i hychwanegu at yr Adroddiad Blynyddol, sy'n nodi ein cyfraniadau.*

## 3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r AIDAC wedi parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol bob chwarter â rhanddeiliaid er mwyn rhoi diweddariadau ynghylch amryw weithgareddau. Mae ystod o wahanol randdeiliaid yn dal i fynychu'r rhain yn gyson, boed yn selogion neu'n randdeiliaid newydd, wrth i broffil yr AIDAC godi oherwydd ein gwaith ymgysylltu parhaus.

Yn ogystal â digwyddiadau rhithiol, cynhaliodd yr AIDAC sawl digwyddiad wyneb yn wyneb i randdeiliaid yn ystod 2024 a dechrau 2025, a oedd yn cynnwys dau ddigwyddiad undydd yng Nghaerdydd. Bu'r digwyddiad cyntaf, ar 10 Ebrill 2024, yn canolbwyntio ar y Papur Gwyn ynghylch Llywodraethiant Amgylcheddol a Bioamrywiaeth; cynigion ynghylch gwaith gan yr AIDAC ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr; a chynnydd o ran ein hadroddiad ynghylch safleoedd gwarchodedig.

Cafodd sesiwn gweithdy a oedd yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ei chynnal ynghylch y Papur Gwyn. Rhoddodd aelodau o dîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol ddadansoddiad manwl o'r Papur Gwyn, a bu modd iddynt egluro rhai o'r pwyntiau llai amlwg. Cafodd rhanddeiliaid gyfle i ofyn cwestiynau i aelodau o dîm y Bil a thynnu eu sylw at faterion.

Roedd y drafodaeth am ansawdd dŵr yn fodd i ni roi prawf ar syniadau cychwynnol ynghylch sut y gallem symud ein gwaith yn y maes hwn yn ei flaen. Amlygodd y pwyntiau a fynegwyd gan y sawl a oedd yn bresennol gymhlethdod y pwnc yn ogystal â'r ystod o safbwyntiau sydd gan wahanol randdeiliaid. Roedd yn fodd i gadarnhau y dull gweithredu yr ydym yn ei ffafrio, sef mabwysiadu ymchwiliad graddol sy'n canolbwyntio ar faterion penodol. Fel y gwnaethom nodi yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid, roedd yr adolygiad statudol o'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn ffactor yn ein penderfyniad i ohirio gwaith ynghylch gweithgareddau amaethyddol nes y byddai gwaith yr adolygiad wedi'i gwblhau, nid yn unig er mwyn osgoi dyblygu ond hefyd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Yn yr ail ddigwyddiad, a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024, gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar ansawdd dŵr a chafwyd cyflwyniad gan yr Athro Isabelle Durance, Cyfarwyddwr Sefydliad Dŵr Prifysgol Caerdydd. Ffocws y cyflwyniad oedd tystiolaeth yr oedd hi a'i thîm wedi'i chasglu ynghylch gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a dulliau posibl o reoli pwysau ar y rhwydwaith carthffosiaeth. Bu'r drafodaeth wedyn yn archwilio barn rhanddeiliaid am gynigion yr oedd ei thîm wedi'u datblygu ynghylch lleihau'r pwysau a achosir gan fewnbwn, a allai gynnig atebion cost-effeithiol i'r problemau y mae cwmnïau dŵr yn eu hwynebu. Bu rhanddeiliaid yn asesu'r cynigion yn feirniadol, gan gynnig syniadau ynghylch sut y gallai'r cynigion gyd-fynd â chamau gweithredu eraill y gallai cwmnïau dŵr eu cymryd, a buont hefyd yn ystyried materion rheoleiddiol posibl y byddai angen rhoi sylw iddynt efallai.

At hynny, rhoddodd Dr Llewelyn Jones amlinelliad o'r Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd yr oedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi gofyn amdano ac yr oedd disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2025. Atebodd gwestiynau gan randdeiliaid am ei phrofiadau hi fel Asesydd Interim ac am y gwersi pwysicaf y dylai'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd eu hystyried, yn ei barn hi.

Gwnaethom gynnal digwyddiad yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar 25 Gorffennaf 2024 ar sail y thema Ansawdd Dŵr. Roedd hwn yn ddigwyddiad ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Derek Walker, yr ydym wedi bod mewn cysylltiad agos ag ef yng nghyswllt ein prosiect dŵr. Roedd llawer o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys panel a roddodd gyflwyniadau am eu safbwyntiau ar ansawdd dŵr. Anna Heslop, y Dirprwy Asesydd Interim, oedd cadeirydd y digwyddiad a chafodd gwmni'r panelwyr canlynol: Derek Walker, Gail Davies-Walsh, Prif Weithredwr Afonydd Cymru, ac Arpana Chunilal a roddodd safbwynt y cyhoedd fel rhywun sy'n hoff iawn o gampau dŵr. Cafwyd trafodaeth fywiog a rhyngweithiol yn y sesiwn holi ac ateb, ac roedd yn gyfle i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau mwy treiddgar am faterion a

meithrin dealltwriaeth o rai o'r ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr mewn afonydd ledled Cymru. Canolbwyntiwyd gryn dipyn ar weithgarwch amaethyddol, o gofio'r lleoliad, ond roedd hefyd yn gyfle i ymgysylltu â sawl rhanddeiliad newydd a daflodd oleuni ychwanegol ar sut y mae ansawdd dŵr yn afonydd Cymru yn effeithio ar gymunedau gwledig.

Ar 24 Medi 2024, bu Nerys Llewelyn Jones yn cyd-gadeirio sesiwn gan Westminster Forum Projects ar ddyfodol llywodraethiant amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd yng Nghymru[2]. Bu cyfraniadau gan academyddion, swyddogion llywodraeth, grwpiau amgylcheddol ac awdurdodau lleol yn ystyried dyfodol llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru, ac roedd yn gyfle i ddysgu o lu o wahanol brofiadau ac arbenigeddau. Rhoddodd Nerys gyflwyniad ar ei phrofiadau fel Asesydd Interim ac ar ei barn am nodweddion allweddol ar gyfer corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol yng Nghymru. Rhoddodd aelodau o dîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol amlinelliad o gynnydd hyd yma, ac amlinelliad lefel uchel o gynlluniau i gyflwyno'r Bil erbyn diwedd tymor cyfredol y Senedd. Bu cyfranwyr eraill yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd y byddai'r Bil a'r corff newydd yn eu hwynebu. Llwyddodd y Fforwm i elwa hefyd o ddealltwriaeth y Fonesig Glenys Stacey, Cadeirydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, wrth iddi fyfyrio ynghylch sefydlu'r Swyddfa.

Bu'r AIDAC yn cynnal digwyddiad ar y cyd ar fferm yng Nghrai, Pontsenni ar 28 Ionawr 2025 i drafod cynaliadwyedd yn y diwydiant ffermio a sut y mae hynny'n cyfrannu at wella ansawdd dŵr. Amlinellodd cynrychiolwyr o Bartneriaeth Dalgylch Afon Wysg a'r gymuned leol o ffermwyr ddulliau y maent wedi bod yn eu harchwilio, sy'n galluogi ffermwyr i gydlynu dulliau ffermio â nodau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chadwraeth. Gwnaethant ddangos sut yr oeddent yn gallu adnabod synergeddau rhwng y gwahanol amcanion ar draws y meysydd hyn, gan sicrhau ar yr un pryd bod amcanion busnes yn cael eu cyflawni.

2 Westminster Forum Projects | The future for environmental governance and protection in Wales

Dangosodd cyflwyniad gan yr Athro Sandra Esteves o Brifysgol De Cymru sut yr oedd yn cydweithio â ffermwyr lleol i roi prawf ar dechnegau adennill ffosffadau, yr oedd potensial masnachol yn perthyn iddynt. Amlinellodd hi a chynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio y manteision masnachol, amaethyddol ac amgylcheddol yr oedd dulliau gweithredu arloesol yn eu cynnig.

Bu'r digwyddiad yn ystyried y dirwedd gyfreithiol a rheoleiddiol, gan archwilio a allai fod yna rwymedïau posibl i gynorthwyo ffermwyr, ecolegwyr a busnesau sy'n gweithio yn y maes hwn. Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion gan y sawl a oedd yn bresennol a thystiolaeth yr ydym wedi'i datblygu o ffynonellau eraill.

## 4 Ymgysylltu ar draws y DU ynghylch llywodraethiant amgylcheddol

Mae'r AIDAC yn parhau i gydweithio'n helaeth â phartneriaid ar draws y DU. Mae'r partneriaid hynny'n cynnwys Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Amgylcheddol yr Alban. Mae'r cydweithio yn cynnwys gweithgareddau rhannu gwybodaeth rheolaidd a phrosiectau wedi'u teilwra.

Mae'r gweithgareddau hynny'n adlewyrchu'r pwys y mae pob un o'r pedair gwlad yn ei roi ar faterion amgylcheddol ac yn adlewyrchu'r manteision a nodwyd o'r gwaith ymgysylltu hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r AIDAC wedi profi manteision ychwanegol hefyd, o ystyried gwahanol bwerau a chylchoedd gorchwyl pob corff. Mae'r cyfle i ystyried safbwyntiau wedi bod yn amhrisiadwy er mwyn cael barn a dealltwriaeth ein cymheiriaid ar draws y DU a chlywed am eu profiadau.

Mae'r manylion a rennir yn ystod amryw gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth yn adnodd ychwanegol sylweddol sy'n cynorthwyo'r AIDAC yn ei waith i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r berthynas rhwng yr AIDAC, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban wedi'i seilio ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth teir-ran[3] sy'n egluro sut yr ydym yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth.

Un agwedd ar y cydweithio hwn, sydd o bwys arbennig, yw'r cyd-gyfarfod blynyddol rhwng yr AIDAC, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban. Mae uwch-aelodau o bob sefydliad yn cwrdd bob blwyddyn i rannu diweddariadau am bynciau allweddol. Mae hynny'n

---

3 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban (theoep.org.uk)

ei gwneud yn bosibl i feysydd sydd o ddiddordeb i bawb gael eu clustnodi'n feysydd ar gyfer cydweithio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Roedd yn bleser cynnal y digwyddiad hwnnw yng Nghaerdydd eleni ar 14 ac 15 Awst.

Fel y nodwyd y llynedd, mae pob un o'r pedair gwlad yn parhau i neilltuo adnoddau i weithio ar ansawdd dŵr. Mae hynny'n adlewyrchu'r diddordeb mawr sydd gan y cyhoedd yn y pwnc hwn, yn ogystal â materion a nodwyd gan bob sefydliad. Bu'r trafodaethau yn fodd i ni glustnodi meysydd lle gallem ganolbwyntio ar gydweithio â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar faterion trawsffiniol sy'n effeithio ar gyrff dŵr sy'n pasio drwy Gymru a Lloegr. Bu modd hefyd i ni adeiladu ar drafodaethau blaenorol ynghylch gwerthuso trefniadau rheoleiddiol sy'n berthnasol i reoli ansawdd dŵr, sydd wedi bod yn fanteisiol i bawb dan sylw.

Bydd y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol a Bioamrywiaeth yn cael ei gyflwyno cyn bo hir yn y Senedd, felly roedd gallu trafod profiadau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban o ran y modd y cawson nhw eu sefydlu yn fanteisiol dros ben hefyd. Roedd y trafod hwnnw'n fodd i feithrin dealltwriaeth yr ydym wedi gallu ei defnyddio mewn trafodaethau â thîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol, sy'n gyfrifol am sefydlu'r corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol arfaethedig. Wrth i waith fynd yn ei flaen yn y maes hwn, rydym yn parhau i fanteisio ar y ddealltwriaeth honno.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch gwaith ein gilydd ac ynghylch pynciau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn ein galluogi i nodi cyfleoedd i gyflawni gweithgareddau wedi'u teilwra mewn meysydd penodol, megis yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig neu gyrff dŵr trawsffiniol.

Rydym hefyd wedi dechrau cydweithio'n agosach â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban ar reoleiddio tir halogedig. Mae'r gwaith hwn newydd ddechrau datblygu ac mae wedi deillio o bryderon a fynegwyd wrthym am ddulliau o waredu cemegolion megis biffenylau polyclorinedig yn y gorffennol.

Mae ein trafodaethau wedi bod yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae cyfraith amgylcheddol gyfredol yn gweithredu. Er i ni ganolbwyntio'n wreiddiol ar y pryderon a fynegwyd mewn cyflwyniadau, mae trafodaethau â phartneriaid yn y cyfarfodydd rheolaidd a gawn â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban wedi ein helpu i glustnodi materion ehangach y mae angen eu hystyried. Rydym wedi clustnodi materion posibl sy'n ymwneud â rheoli safleoedd gwaredu cemegolion yn y gorffennol. Mae hynny wedi arwain at gwestiynau ynghylch y modd y mae rheoliadau perthnasol yn gweithredu yn y maes hwn, sy'n gwestiynau yr ydym yn dechrau eu harchwilio'n fanylach. Rydym wrthi'n awr yn cydweithio'n agosach â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban, ac yn canolbwyntio'n benodol ar y maes hwn ochr yn ochryn ogystal â'n cyfarfodydd rhannu gwybodaeth rheolaidd.

Gwnaeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ein gwahodd ni a Safonau Amgylcheddol yr Alban i fynychu gweithdy diweddar a drefnwyd gydag aelodau o Goleg Arbenigwyr y Swyddfa. Roedd yn gyfle amhrisiadwy i gydweithio â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, Safonau Amgylcheddol yr Alban ac arbenigwyr o bob rhan o'r byd academaidd, byd busnes a'r sector amgylcheddol sydd â gwybodaeth eang am y Rheoliadau Tir Halogedig. Drwy'r gweithdy, bu modd i ni archwilio agweddau technegol ar y Rheoliadau ac archwilio'r heriau cyfredol y mae rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth iddynt roi'r Rheoliadau ar waith. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd am y cyfle hwn.

Pwnc arall yr ydym yn parhau i gydweithio arno yw rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig

a safleoedd gwlyptir Ramsar. Mae'r Adolygiad o Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig-Safleoedd Ramsar, a sefydlwyd gan DEFRA yn 2001, wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar yr adroddiad Cam 2 ynghylch statws y rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig. Gan fod yna faterion i bob corff cadwraeth cenedlaethol eu hystyried ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, rydym yn parhau i gwrdd er mwyn trafod materion posibl a allai ddeillio o'r gwaith hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r adroddiad Cam 2 gael ei gyhoeddi ac yn disgwyl am ymateb y llywodraethau datganoledig a'r rheoleiddwyr wrth iddynt symud ymlaen gyda Cham 3, sef gweithredu argymhellion yr adroddiad Cam 2. Bydd cyhoeddi'r adroddiad a chael ymatebion y cyrff a fydd yn gweithredu'r argymhellion yn llywio ein camau nesaf ni yn y maes hwn.

## 5 Proses

Rydym yn dal i weithredu ein safonau ar gyfer ymateb i'r cyflwyniadau a gawn ynghylch y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys ein hymrwymiad i ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith i unrhyw Ffurflen Gyflwyno a gawn.

Bydd pob cyflwyniad yn mynd drwy ymarfer cwmpasu er mwyn penderfynu a yw'r mater a godwyd yn ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu ac a yw, felly, yn perthyn i gwmpas yr AIDAC. Mae ymarfer blaenoriaethu pellach, yn unol â'n hegwyddorion blaenoriaethu[4], yn ystyried a yw'r cyflwyniad yn codi mater o bwys a pha lwybr gweithredu sydd fwyaf priodol. O gofio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r AIDAC, mae'n rhaid ystyried sut a ble y dylem eu defnyddio.

Yn rhan o'r gweithgareddau hyn, byddwn yn ceisio penderfynu a allai unrhyw gyflwyniad gael ei ymgorffori'n effeithiol mewn gwaith sydd ar y gweill. Mae hynny'n ein galluogi i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn ogystal â mynd i'r afael â chynifer ag sy'n bosibl o gyflwyniadau. Os penderfynir na all cyflwyniad y bernir ei fod yn perthyn i gwmpas yr AIDAC gael ei ymgorffori yn y modd hwn, caiff ei ychwanegu at ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol, i'w ystyried pan fydd capasiti'n caniatáu hynny.

Rydym hefyd yn dal i adolygu pob cyflwyniad yn barhaus, oni bai ein bod wedi penderfynu nad oes angen gweithredu ymhellach. Gallai hynny ddigwydd oherwydd ein bod wedi cwblhau unrhyw gamau gweithredu posibl. Fel arall, efallai y byddwn wedi barnu nad yw cyflwyniad yn perthyn i gwmpas yr AIDAC, ac nad oes unrhyw bosibilrwydd y bydd hynny'n newid unrhyw bryd yn y dyfodol.

---

4 Egwyddorion blaenoriaethu Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) | LLYW.CYMRU

Os penderfynwyd nad yw cyflwyniadau'n perthyn i gwmpas yr AIDAC ond y gallai hynny newid rywbryd, byddwn yn parhau i adolygu'r cyflwyniadau. Mae hynny'n cynnwys adolygu'r penderfyniad cwmpasu gwreiddiol er mwyn penderfynu a oes unrhyw newidiadau rheoleiddiol neu ddeddfwriaethol sylweddol wedi digwydd a allai effeithio ar y penderfyniad hwnnw.

Mae'r dull hwn o weithredu'n dilyn newidiadau a gyflwynwyd y llynedd ar sail argymhellion a wnaed mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith[5] i wella'r gwaith o fonitro effaith.

Cafodd yr AIDAC wybod bod Llywodraeth Cymru wedi cael cwyn am y ffordd yr oeddem wedi ymdrin â chyflwyniad.

Cytunodd Llywodraeth Cymru â'r penderfyniad cwmpasu a oedd wedi'i wneud gan yr AIDAC. Nododd fod y penderfyniad yn cyd-fynd â chylch gorchwyl yr AIDAC.

Nododd Llywodraeth Cymru y dylai'r AIDAC adolygu sut y gellid cyfleu rôl a chylch gorchwyl yr AIDAC yn fwy effeithiol i'r cyhoedd, ac y dylai pob cyfathrebiad â chyflwynwyr unigol lynu wrth ddull clir a chyson o gyfleu neges. Mae'r awgrymiadau yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth gyfathrebu.


5 Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-2023

# 6 Cyflwyniadau

## 6.1 Trosolwg o'r holl gyflwyniadau a gafwyd


Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi cael dau gyflwyniad. Mae hynny'n golygu bod cyfanswm o 38 o gyflwyniadau wedi dod i law'r AIDAC ers i'r rôl gael ei sefydlu. Er y barnwyd bod mwyafrif y cyflwyniadau a gafwyd yn perthyn i gwmpas yr AIDAC, penderfynwyd bod y ddau gyflwyniad a gafwyd eleni y tu allan i gwmpas yr AIDAC ac nad oeddent yn ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu.

*Ffig. 1: Statws pob cyflwyniad a gafwyd hyd yma gan yr AIDAC.*





Roedd y ddau gyflwyniad a gafwyd eleni'n ymwneud â'r gyfraith ynghylch bywyd gwyllt a chynefinoedd. Caiff rhagor o fanylion eu rhoi yn yr adran isod. Mae'r cyflwyniadau sydd wedi'u cau heb fod unrhyw gamau gweithredu pellach wedi'u cymryd gan yr AIDAC yn ymwneud â chyflwyniadau a gafwyd cyn mis Mawrth 2023. Er y bernir nad yw'r ddau gyflwyniad a gafwyd eleni'n perthyn i gwmpas yr AIDAC, byddant yn dal i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn penderfynu a fydd unrhyw wybodaeth bellach yn dod i'r amlwg a allai effeithio ar y penderfyniad cwmpasu.

*Ffig. 2: Nifer y cyflwyniadau a gafwyd gan yr AIDAC, a oedd yn perthyn i gwmpas yr AIDAC, yn ôl categori cyfraith amgylcheddol.*




Hyd yma, mae 68% o'r holl gyflwyniadau a gafwyd wedi ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, a barnwyd felly eu bod yn perthyn i gwmpas yr AIDAC. Mae mwyafrif y cyflwyniadau a gafwyd yn ymwneud o hyd ag ansawdd dŵr.

*Ffig.3: Cyfanswm y cyflwyniadau a gafwyd bob blwyddyn.*





Gan mai dim ond dau gyflwyniad a gafwyd rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, mae'n golygu gostyngiad o gymharu â'r nifer a gafwyd yn 2023. At hynny, dyma'r nifer leiaf o gyflwyniadau a gafwyd mewn unrhyw un flwyddyn hyd yma. Nid yw'r rheswm dros y gostyngiad hwn yn glir.

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf lle na chawsom unrhyw gyflwyniadau ynghylch y modd y mae cyfraith

amgylcheddol yn gweithredu.

Mae hynny'n golygu bod nifer y cyflwyniadau sydd wedi'u cysylltu ag adroddiadau yr un fath â'r nifer yn 2022-2023. O'r 38 o gyflwyniadau a gafwyd hyd yma, mae 26 wedi'u cysylltu ag adroddiadau ac ystyrir cynnwys 2dau gyflwyniad arall mewn adroddiad arall pan fydd digon o gapasiti'n dod ar gael.

*Ffig. 4: Nifer y cyflwyniadau sydd wedi'u cysylltu ag adroddiadau a ddatblygwyd gan yr AIDAC hyd yma.*




Yn gyffredinol, mae mwyafrif y cyflwyniadau'n dal i berthyn i gwmpas yr AIDAC ac eir i'r afael â nhw drwy adroddiadau neu gamau gweithredu eraill.

### 6.2 Cyflwyniadau a gafwyd yn 2024 – 2025

Fel y nodwyd uchod, cafwyd dau gyflwyniad eleni (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Nid oedd yr un o'r cyflwyniadau hynny'n perthyn i gwmpas yr AIDAC. Dan gylch gorchwyl yr AIDAC, yr unig gyflwyniadau y mae'n bosibl eu hystyried yw rhai sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu. Nid yw hynny'n cynnwys achosion o dorri cyfraith amgylcheddol neu faterion yr ymdrinnir â nhw dan systemau eraill. Mae'r AIDAC yn endid anstatudol ac nid oes ganddo'r pwerau ymchwilio sydd gan reoleiddwyr amgylcheddol Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Roedd y cyflwyniad cyntaf yn ymwneud â monitro a rheoli rhywogaeth gyfyngedig ar ôl iddi gael ei rhyddhau i'r gwyllt. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd penderfyniadau am weithgarwch gorfodi'n atal y gyfraith rhag gweithredu.

Roedd yr ail gyflwyniad yn ymwneud â rheoli safleoedd gwarchodedig. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd digon o eglurder mewn deddfwriaeth ynglŷn â phwerau gorfodi, a oedd yn effeithio ar berfformiad awdurdodau gorfodi.

Roedd y ddau gyflwyniad yn ymwneud â digwyddiadau penodol. Penderfynodd yr AIDAC i'r casgliad mai Cyfoeth Naturiol Cymru fyddai'r corff priodol i ystyried y materion a godwyd.

# 7 Adroddiadau a ddatblygwyd

Gwnaethom barhau i weithio ar adroddiadau sy'n ymwneud â choed a choetiroedd, gwrychoedd a safleoedd gwarchodedig. Yn sgil recriwtio Anna Heslop a Lynda Warren fel Dirprwy Aseswyr Interim, bu'n rhaid trefnu ffyrdd o ddosbarthu'r cyfrifoldeb am ddatblygu agweddau allweddol ar waith yr AIDAC. O ganlyniad, parhaodd Nerys Llewelyn Jones i fod yn gyfrifol am yr adroddiad ynghylch coed a'r adroddiad ynghylch gwrychoedd. Lynda Warren sy'n awr yn gyfrifol am ddatblygu'r adroddiad ynghylch safleoedd gwarchodedig ac am waith ynglŷn â thir halogedig, ac mae Anna Heslop yn symud y prosiectau ynghylch ansawdd dŵr ac Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig yn eu blaen.

### 7.1 Ansawdd dŵr

Rydym hefyd wedi bod yn adolygu ymrwymiadau pellach gan ystyried cyflwyniadau a diddordeb y cyhoedd. O gofio lefel y diddordeb a'r pryder ynghylch ansawdd dŵr, ynghyd â nifer y cyflwyniadau a gafwyd hyd yma, rydym wedi dewis blaenoriaethu gwaith yn y maes hwn dros feysydd eraill yr oeddem wedi bod yn eu hystyried yn flaenorol. O gofio maint a chymhlethdod y pwnc hwn, rydym wedi penderfynu rhannu ein gwaith yn amryw feysydd sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr. Er bod yna ddiddordeb wedi bod yn yr effaith y mae gweithgarwch amaethyddol yn ei chael ar ansawdd dŵr, roedd mwyafrif y cyflwyniadau'n ymwneud â charthion. Nodwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio adolygiad o'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ac y gallem fod yn dyblygu gweithgarwch yn y pen draw. O gofio'r adnoddau sydd ar gael i ni, roeddem yn teimlo y byddai'n ddoeth aros am ganlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru ac ystyried ei oblygiadau bryd hynny.

Fel cam cyntaf, rydym yn canolbwyntio ar y modd y mae rheoliadau dŵr gwastraff yn gweithredu.

Mae hynny hefyd yn adlewyrchu sawl pryder a fynegwyd mewn cyflwyniadau. Cafodd galwad am dystiolaeth ei chyhoeddi yn ystod haf 2024, a daeth i ben ddechrau mis Medi 2024. Cawsom gymorth myfyriwr doethuriaeth a oedd ar leoliad gyda'r AIDAC ar y pryd i wneud y gwaith dadansoddi cychwynnol.

Arweiniodd y cyhoeddiad ym mis Hydref[6] ynghylch lansio Comisiwn annibynnol i'r sector dŵr a'r modd y caiff y sector ei reoleiddio at oblygiadau clir i'r gwaith hwn. O ystyried cwmpas gwaith y Comisiwn, a'i berthnasedd i reoleiddio trin dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ystyriwyd bod yn rhaid nodi sut y byddai hynny'n effeithio ar ganfyddiadau ac argymhellion ein gwaith hyd hynny. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr y Comisiwn ynghylch gwaith y Comisiwn a'i oblygiadau. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn, felly rydym yn dal i ystyried ein canfyddiadau hyd yma a newidiadau posibl i'n dull o ymdrin â'r pwnc.

**7.2 Tir halogedig**

Mae'r modd y cafodd gwastraff cemegol ei waredu yn y gorffennol mewn sawl lleoliad o amgylch Cymru yn bryder tebyg. Mae cyflwyniadau a gafwyd gan yr AIDAC ynghylch gwaredu biffenylau polyclorinedig ac ynghylch rheoli'r safleoedd hynny wedi cael eu hystyried yn fanwl. Rydym wedi nodi effaith tywydd eithafol ar gyflwr rhai safleoedd. Mae trafodaethau â chydweithwyr o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylcheddol yr Alban wedi esgor ar bryderon tebyg sy'n ymwneud â thir halogedig. O gofio'r effaith y gallai unrhyw dangyflawni posibl gan reoliadau yn y maes hwn ei chael, rydym o'r farn ei fod yn faes digon pwysig i gamau gael eu cymryd i hwyluso gweithgarwch ynglŷn â'r materion hyn. Mae Lynda

---

6 Llywodraethau yn lansio'r adolygiad mwyaf o'r sector ers iddo gael ei breifateiddio - GOV.UK

Warren yn arwain y gwaith. Megis dechrau y mae, ac mae'n destun cyfres barhaus o gyfarfodydd â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban, a fydd yn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

**7.3 Safleoedd gwarchodedig**

Mae gwaith ar yr adroddiad ynghylch safleoedd gwarchodedig yn nesáu at ei derfyn. Mae'n dilyn cyflwyniadau a gafwyd ynghylch statws safleoedd gwarchodedig, a'r modd y cânt eu monitro a'u rheoli. Mae Lynda Warren wedi cynnal adolygiad o'r gwaith a wnaed hyd yma, gan ddefnyddio ei harbenigedd yn y pwnc. Bu'n rhaid cynnal adolygiad sylweddol o waith, o ystyried datblygiadau diweddar sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

**7.4 Coed a gwrychoedd**

Cwblhaodd Dr Llewelyn Jones ei gwaith ar adroddiadau ynghylch diogelu gwrychoedd yng Nghymru ac ynghylch gwarchodaeth gyfreithiol i goed yng Nghymru.

## 8 Monitro effaith

Yn nau o'i adroddiadau diweddar ar weithrediad y mesurau interim[7], mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi cyfeirio at fonitro effaith. Yn ei adroddiad ar gyfer 2022-2023, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol:

> *Argymhelliad 2. Dylai'r AIDAC sefydlu proses ffurfiol i fonitro effaith argymhellion y corff ar benderfyniadau a chanlyniadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi'r AIDAC i asesu ei effaith.*

Yn ei adroddiad ar gyfer 2023-2024, gwnaeth yr argymhelliad canlynol:

> *Argymhelliad 3. Dylai swyddfa Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru gynnwys yn ei adroddiad blynyddol nesaf fanylion am y gwaith y mae wedi'i wneud i fonitro ei berfformiad ac effaith ei waith.*

Yn Adroddiad Blynyddol 2023-2024 yr AIDAC[8], gwnaethom roi diweddariad ynghylch ein gwaith yn ystod y flwyddyn honno i ddatblygu prosesau monitro effaith. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys adran ychwanegol am fonitro effaith, lle gwnaethom amlinellu ein cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhelliad y Pwyllgor a lle gwnaethom roi manylion ein hasesiadau.

---

7 Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23, Medi 2023; Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-24

8 Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru: Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024

Fel y nodwyd y llynedd, rydym wedi sefydlu prosesau ffurfiol ar gyfer cynnal adolygiadau o gyflwyniadau. Rydym yn dal i ddatblygu ein prosesau monitro effaith, ac mae'r rhain yn awr yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adolygu effaith argymhellion adroddiadau. Rydym wrthi hefyd yn datblygu ein dull o fonitro ac o adrodd ynghylch ein prosesau mewnol.

**8.1 Datblygu dull o fonitro effaith allanol**

Mae pennu dull effeithiol o fonitro effaith argymhellion adroddiadau wedi arwain at sawl her. Mae newidiadau cyfreithiol a chanlyniadau amgylcheddol yn golygu amserlenni estynedig. Mae'r ddau beth hynny hefyd yn golygu systemau cymhleth, deinamig nad ydynt yn gweithredu mewn modd unionlin a mecanyddol. Felly, bu'n rhaid adnabod dulliau sy'n ystyried y pethau hynny.

Caiff targedau CAMPUS traddodiadol (targedau Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) eu defnyddio'n eang mewn gwaith monitro. Fodd bynnag, mae'r materion a nodwyd uchod yn golygu nad ydynt yn addas ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion cyfredol. Mae dulliau amgen megis nodau Pwrpasol, Ymarferol, Parhaus ac Olrheiniadwy (Purposive, Actionable, Continuous and Trackable (PACT)) yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn darparu ar gyfer natur gymhleth, estynedig y maes y mae'r AIDAC yn gweithredu ynddo.

Mae'r dull PACT o weithredu'n rhoi pwys ar wneud cynnydd dros gyfnod o amser. Mae gwerthuso hynny yn nhermau cyrraedd cerrig milltir yn sicrhau bod modd gwerthuso'n barhaus. Bydd adrodd ynghylch effaith, felly, yn canolbwyntio ar weithgarwch yn rheolaidd, gyda'r bwriad o symud tuag at ganlyniadau a ddymunir.

Mae'r cerrig milltir canlynol wedi cael eu nodi i'w defnyddio ym mhroses monitro effaith allanol yr

AIDAC:

- **argymhellion yn cael eu gwrthod;**
- **argymhellion yn cael eu cytuno mewn egwyddor;**
- **rhanddeiliaid yn mynegi cytundeb ag argymhellion;**
- **ymrwymiad i weithredu ar sail argymhellion;**
- **amserlen glir yn cael ei chytuno ar gyfer gweithredu;**
- **mesurau'n cael eu cyflwyno i weithredu ar sail ymrwymiadau;**
- **mesurau'n cael eu gweithredu;**
- **rhanddeiliaid yn mynegi cytundeb â'r mesurau a weithredwyd;**
- **tystiolaeth yn cael ei nodi o ddefnyddio mesurau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd;**
- **y materion a nodwyd yn digwydd yn llai aml;**
- **tystiolaeth o effaith amgylcheddol yn cael ei nodi gan randdeiliaid.**

Mae'r cerrig milltir hyn yn darparu llwybr clir, o'r adeg pan gaiff argymhellion adroddiadau eu cyflwyno i'r adeg pan gaiff canlyniadau amgylcheddol gwell eu gweld. Caiff tystiolaeth ei chasglu oddi wrth ystod o randdeiliaid, sy'n cynnwys ffynonellau mewn llywodraeth ac ym maes rheoleiddio, mudiadau yn y trydydd sector, ac aelodau'r cyhoedd. Os yw argymhellion yn cynnwys amserlenni, mae'n bosibl asesu cynnydd oddi mewn iddyn nhw a gofyn cwestiynau i bartïon sy'n gyfrifol am hynny. Mae'r dull hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau sydd ar bartïon cyfrifol. Mae agendâu polisi, er enghraifft, yn effeithio ar newidiadau deddfwriaethol.

Caiff tystiolaeth ei defnyddio i asesu cynnydd ar sail pob argymhelliad unigol yn ogystal ag effaith gronnol pob adroddiad. Mae canrannau wedi'u dewis fel metrig syml, a bernir mai cynnydd llawn yw asesiad bod rhanddeiliaid wedi gweld gwelliannau amgylcheddol. Rydym yn cydnabod bod rhai cerrig milltir yn bwysicach na'i gilydd ond rydym wedi rhoi'r un pwysoliad i bob un ohonynt ar hyn o bryd.

Mae'r dull hefyd yn cydnabod bod cyflawni canlyniadau amgylcheddol er gwell, yn dilyn argymhellion, yn rhywbeth sy'n debygol o ymestyn y tu hwnt i oes yr AIDAC. Rydym yn gobeithio bod y dull hwn o weithredu'n rhywbeth a fydd yn ddefnyddiol i'r corff a sefydlir yn y dyfodol.

### 8.1.1 Monitro effaith allanol: argymhellion yr adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir

Er ein bod wedi llunio'r system fonitro uchod ar gyfer adroddiadau'r dyfodol, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol ar gyfer yr adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Ffocws pennaf yr adroddiad hwnnw oedd camau gweithredu sydd yn y pen draw yn perthyn i rym Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Mae tystiolaeth wedi'i chasglu am ymatebion i'r adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 gan yr AIDAC[9]. Cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 12 Mai 2023[10]. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dau ddiweddariad chwemisol ynghylch

9 Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

10 Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – ymateb y Gweinidog i'r adroddiad

gweithredu'r mesurau sydd yn y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir[11]. Mae ymateb y Gweinidog a'r ddau ddiweddariad chwemisol wedi'u defnyddio i asesu effaith yr adroddiad hyd yma.

Wrth ystyried effaith yr adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, roedd angen hefyd ystyried yr amgylchiadau yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio ynddynt. Dylid nodi hefyd bod cwmpas y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas yr AIDAC.

Cafodd y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Mehefin 2023[12]. Fel un o Ddeddfau Llywodraeth y DU, cydnabyddir bod gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn dibynnu ar flaenoriaethau polisi pob un o'r ddwy lywodraeth. Cydnabyddir hefyd bod sensitifrwydd gwleidyddol tynnu'r DU allan o'r UE yn ffactor, gan fod y mater yn golygu bod angen i'r ddwy lywodraeth ystyried gweithgarwch cysylltiedig mewn modd pragmatig.

Cynhaliwyd adolygiad o ddangosfwrdd y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir[13], a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Ceisiodd yr adolygiad hwnnw benderfynu pa ddarnau o ddeddfwriaeth ar y dangosfwrdd sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Roedd hynny'n angenrheidiol er mwyn deall pa agweddau oedd yn perthyn i gylch gorchwyl yr AIDAC[14]. Gan nad yw'r dangosfwrdd yn cynnwys categori penodol sy'n galluogi dadansoddiad felly, roedd yn rhaid adnabod cyfraith o'r fath drwy ddulliau eraill. Roedd hynny'n cynnwys adnabod adrannau arweiniol a allai fod yn gyfrifol am agweddau ar gyfraith amgylcheddol.

11 Diweddariad cyntaf chwemisol Llywodraeth Cymru ar y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir: Gorffennaf 2023 – Rhagfyr 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU ac Ail ddiweddariad chwemisol Llywodraeth Cymru ar y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir: Ionawr 2024 – Mehefin 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

12 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

13 Cyfraith yr UE a ddargedwir a dangosfwrdd cyfraith a gymathwyd - GOV.UK

14 Cylch gorchwyl: Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU

Roedd yr adrannau a ystyriwyd yn Llywodraeth y DU yn cynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Drafnidiaeth. Mae'r adrannau hynny wedi bod yn gyfrifol yn flaenorol am eitemau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â materion amgylcheddol. Yn ogystal, ceisiodd yr adolygiad nodi eitemau yr oedd y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi effeithio arnynt ers iddi gael ei chyflwyno.

Nododd yr adolygiad oddeutu 1100 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a allai effeithio ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Barnwyd na fyddai penderfyniad terfynol am effaith pob darn o ddeddfwriaeth yn bosibl oni bai bod adolygiad yn cael ei gynnal o bob eitem yn unigol. Barnwyd hefyd y byddai gwneud penderfyniad llawn am effaith unrhyw newidiadau y tu hwnt i gapasiti'r AIDAC ar hyn o bryd.

Dylid nodi bod llawer o'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r modd y mae'n rhyngweithio â Llywodraeth y DU ers i'r Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir gael ei gyflwyno yn San Steffan. Er bod modd adnabod pa eitemau yn y dangosfwrdd sy'n berthnasol i Gymru, nid yw'r dangosfwrdd yn cynnwys manylion eitemau sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli neu faterion sydd wedi'u cadw yn ôl. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am i'r wybodaeth honno gael ei darparu ar y dangosfwrdd[15]. Gofynnodd Llywodraeth y DU i'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu'r data at y diben hwnnw.[16] Ni fu'n bosibl, felly, gwahaniaethu rhwng deddfwriaeth am faterion sydd wedi'u datganoli a materion sydd wedi'u cadw yn ôl.

Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb cychwynnol i'r adroddiad ynghylch y Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, roedd cydweithio ar y Bil a'i oblygiadau ar gyfer deddfwriaeth

15 Datganiad Ysgrifenedig: Dangosfwrdd Rhyngweithiol Cyfraith yr UE a Ddargedwir (27 Mehefin 2022) | LLYW. CYMRU

16 Llythyr Badenoch ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir

ddatganoledig yn cynnwys Gweinidogion, adrannau a phwyllgorau Llywodraeth y DU. Gwnaeth hefyd gyd-noddi diwygiadau i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ymddengys, felly, fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o ymdrech i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oedd yr ymdrech honno wedi'i chyfyngu i gyfraith amgylcheddol yn unig.

Rhaid cydnabod bod y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi bod yn her fawr i Lywodraeth Cymru. Cafodd ei gyflwyno gydag amserlen dynn ar gyfer gweithredu. Roedd hefyd yn ymdrin â holl gyfraith yr UE a ddargedwir ac roedd yn cynnwys cyfraith sydd wedi'i chadw yn ôl a chyfraith sydd wedi'i datganoli.

Dylid nodi hefyd bod llawer o'r argymhellion yn ymwneud â chamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd. Mae wedi cael Cydsyniad Brenhinol erbyn hyn. Roedd y gwaith gwerthuso, felly, yn cynnwys y Ddeddf derfynol a gyhoeddwyd a'r defnydd o bwerau sydd yn y Ddeddf. Roedd sawl argymhelliad yn ymwneud â darpariaethau sydd yn y Bil. O ganlyniad, mae'r gwaith dadansoddi effaith wedi ystyried hynny.

Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd penderfynu pa gamau gweithredu penodol sydd wedi'u cymryd yng nghyswllt sawl argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad. Y rheswm am hynny yw bod dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i amlinellu gweithgarwch a chynnydd wedi bod yn ymdrin â holl gyfraith yr UE a ddargedwir, ac nad ydynt yn gyffredinol wedi bod yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y gyfraith, yn enwedig cyfraith amgylcheddol. Hwn fu'r prif rwystr o ran gwerthuso'n effeithiol effaith yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Bu'n rhaid ystyried y cafeatau hyn wrth gynnal yr asesiad hwn.

### 8.2 Monitro effaith fewnol: adolygiadau o gyflwyniadau

Fel y nodwyd uchod, mae'r AIDAC wedi cael cyfanswm o 38 o gyflwyniadau. Rydym yn cynnal adolygiadau bob chwarter o'r holl gyflwyniadau er mwyn penderfynu a oes unrhyw newidiadau o bwys yn arwain at oblygiadau i benderfyniadau a wnaed gennym yn flaenorol, yn enwedig ynghylch cyflwyniadau y penderfynwyd yn wreiddiol eu bod y tu allan i gwmpas yr AIDAC.

Mae sawl cyflwyniad wedi cau erbyn hyn, sy'n golygu na fydd yr AIDAC yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach. Nid yw'r cyflwyniadau hynny erbyn hyn yn rhan o'n hadolygiadau o gyflwyniadau. Yn achos sawl un o'r rhain, gwnaed y penderfyniad oherwydd bod y mater a godwyd gan gyflwynwyr wedi'i ddatrys wrth i gyrff priodol gymryd camau gweithredu priodol.

O ganlyniad, mae 10 o gyflwyniadau wedi'u cau erbyn hyn ac mae dau yn cael eu cadw nes y bydd capasiti'n dod ar gael. Mae dau gyflwyniad arall a oedd yn cael eu cadw nes y byddai capasiti'n dod ar gael wedi'u hychwanegu erbyn hyn i'w hystyried yn ystod ein cam nesaf o waith ar ansawdd dŵr. Gan fod y rhain yn ymwneud ag effaith allyriadau amonia o weithgarwch amaethyddol, penderfynwyd y byddai eu cynnwys fel hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael yn fwy effeithlon â phryderon cyflwynwyr.

### 8.3 Gweithgarwch datblygu

Yn ogystal ag ehangu ein gwaith monitro effaith i gynnwys argymhellion adroddiadau, rydym yn parhau i fynd i'r afael â phrosesau monitro eraill. Rydym wedi ymrwymo i gynnwys prosesau i werthuso effaith gweithgarwch mewnol yr AIDAC ac rydym wrthi'n gweithio i fireinio'r rheini. Nid

ydym wedi cyrraedd sefyllfa eto lle gallwn gynnwys canlyniadau sy’n deillio o’r gwaith hwn.

## 9 Cynorthwyo’r gwaith pontio i gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol

Mae’r AIDAC wedi bod yn cwrdd bob mis ag aelodau o dîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol. Rydym yn cael diweddariadau ynghylch datblygiadau allweddol o safbwynt hynt y Bil, gan gynnwys manylion perthnasol ynghylch sut gorff y gallai’r corff craffu parhaol newydd fod. Rydym wedi gallu taflu goleuni ar sut y gallai cynigion weithredu, o ystyried ein profiad hyd yma fel yr AIDAC. Mae’r trafod parhaus hwn ag aelodau’r tîm yn dal i gynorthwyo eu gwaith nhw, ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni sy’n llywio ein gwaith o baratoi trefniadau ar gyfer pontio. Mae’r trafodaethau wedi bod yn digwydd ar lefel eithaf uchel hyd yma, sy’n adlewyrchu ffocws tîm y Bil ar hyn o bryd. Mae’r AIDAC yn awyddus i symud ein sgyrsiau yn eu blaen ynglŷn ag elfennau swyddogaethol a gweithredol y corff newydd, oherwydd bydd deall yr elfennau hynny’n hollbwysig er mwyn i’r AIDAC gynorthwyo i sicrhau proses bontio hwylus.

Mae tîm yr AIDAC hefyd wedi bod yn mynychu’r sesiynau i randdeiliaid a drefnwyd gan dîm y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol ynglŷn ag amryw agweddau ar y Bil. Rydym wedi cymryd rhan yn llawn yn y sesiynau hynny er mwyn cynnig awgrymiadau a gofyn cwestiynau am gynigion ac er mwyn i ni allu deall pryderon rhanddeiliaid yn well yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Mae’r AIDAC yn gweithio ar Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd. Mae’n darparu adolygiad thematig o’r modd y mae’r AIDAC wedi gweithredu hyd yma ac mae’n myfyrio ynghylch yr holl weithgareddau y mae’r AIDAC wedi’u cyflawni yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae’n cynnwys ystyriaethau ac awgrymiadau ynghylch sefydlu corff parhaol newydd. Mae wedi’i lywio gan sylwadau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai a gafwyd yn ystod sesiwn gyda Westminster Forum Projects, a gynhaliwyd gan Nerys Llewelyn Jones ym mis Medi.[17] Rydym yn gobeithio y bydd o gymorth i’r corff craffu

17 Westminster Forum Projects | The future for environmental governance and protection in Wales

newydd allu ei sefydlu ei hun yn gyflym fel rhan annatod o’r dirwedd o ran llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

## 10 Casgliad

Mae rôl yr AIDAC yn rôl interim, ac edrychwn ymlaen at ganlyniad y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer sefydlu corff parhaol yng Nghymru. Mae'r AIDAC wedi bod yn ymgysylltu â thîm Llywodraethiant Amgylcheddol Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i waith parhaus ac wedi cynnig awgrymiadau ar sail profiad yr AIDAC hyd yma. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i sicrhau proses bontio esmwyth o'r AIDAC i'r corff newydd hwn.

Byddem yn croesawu sylwadau ac adborth ynghylch rôl a gwaith yr AIDAC. Os hoffech fynegi pryder am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, gallwch lenwi Ffurflen Gyflwyno sydd i'w gweld ar wefan yr AIDAC: Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru: Ffurflen Gyflwyno | LLYW.CYMRU.  At hynny, mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a manylion ynglŷn â galwadau am dystiolaeth neu ddigwyddiadau i randdeiliaid i'w gweld ar wefan yr AIDAC: Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU. Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch hynny neu'r rôl, neu os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr bostio, mae croeso i chi gysylltu â ni: IEPAW@llyw.cymru.